Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlvi. MAI, 1946. Rhif 5.

Cwestiwn Mawr yr Oesoedd.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Ydyw'r cwbl o ddyn yn darfod yn Angau? Ynteu, dim ond newid ffurf a ddigwydd? Oes mewn dyn rywbeth a oroesa Angau? Ydyw dyn yn anfarwol?

Cwestiynau mawr yr oesoedd a fu'r cwestiynau hyn a'u tebyg; ac atebion cadarnhaol, ar y cyfan, a roddid iddynt. Atebion cadarnhaol, ymron yn ddieithriad, a roddid iddynt gan ddoethwyr gwlad Groeg, megis Plato, Socrates, ac eraill a ellid eu henwi. O groesi'r ffiniau i wledydd dwyreiniol eraill, daw'r un unfrydedd i'r amlwg. Clywsom gryn sôn ynghwrs y blynyddoedd diwethaf am Tutancamen—un o Pharöaid yr Aifft. Beth a amlygid inni gan a ddarllenasom amdano? Onid bod anfarwoldeb yn fater o grediniaeth—o grediniaeth heb rith o amheuaeth—iddo ef a'i bobl? O ddod ohonom i awyrgylch y Testament Newydd, gwelwn y meddiennid y disgyblion gan deimlad o sicrwydd bod eu hathro, er wedi'i groeshoelio, eto'n fyw. Y teimlad hwn o sicrwydd bod eu Hathro'n fyw a'u gyrrodd, ym mlynyddoedd cyntaf Cristionogaeth, i wneuthur a allent i daenu'r genadwri newydd, a dioddef yn amyneddgar a ffyddlon bob math ar erlid—hyd farw. Mynn rhai inni gredu bod y syniad am anfarwoldeb yn llwyr absennol o'r Hen Destament. Gwir yw na roddir iddo fynegiad clir, amlwg, diamwys yn un o'i lyfrau. Eithr honnaf bod cryn lawer o'i gynnwys yn hollol anealladwy ar wahân i'r syniad nad yw marw yn derfyn i fywyd. O ddarllen hanes, oni ddaw'n amlwg bod y gred mewn anfarwoldeb ymron â bod yn gred gyffredinol?

Ymha le y safwn ni o'r genhedlaeth bresennol o barthed i'r cwestiwn? Wedi i'r Rhyfel Mawr cyntaf ddod i derfyn, buom dystion o gryn ddeffroad diddordeb o barthed iddo. Gofynnid—ai

yn hollol ofer yr aberthodd y miliynau eu bywyd? Nid oedd raid ond gofyn y cwestiwn cyn y deuai'r ateb—nad yn ofer y bu hyn; bod pob teimlad o gyfiawnder, heb sôn am ddim arall, yn gwneuthur credu'n wahanol yn hollol amhosibl.

Rai blynyddoedd yn ôl cyhoeddodd Syr Oliver Lodge lyfr a ddug y teitl *Raymond*. Enw byd-adnabyddus yw enw Syr Oliver, un o wyddonwyr dyscedicaf yr hanner olaf o'r ganrif ddiwethaf. Ef, yn ôl a ddywedir, oedd gwir ddarganfyddwr y diwifr; adeiladu ar sail a osodwyd i lawr ganddo ef a wnaeth Marconi ac eraill.

Beth sydd a fynno Syr Oliver â'r cwestiwn dan sylw? Cyn mynd ymhellach, sylwaf bod Syr Oliver yn ysbrydegwr; nid yn unig fe gred mewn anfarwoldeb, crêd hefyd yn y posibilrwydd o ddal cyfathrach â'r rhai y sydd wedi blaenu i'r tu hwnt i'r llen. Collodd fab yn y rhyfel o'r enw Raymond, a ddug arwyddion etifeddu ohono fesur mawr iawn o alluoedd meddyliol ei dad. Llwyr-fodlonwyd Syr Oliver o barthed i'r posibilrwydd o ymddiddan â'i fab; a chofnod o'r ymddiddanion yw rhan fawr o gynnwys y llyfr y cyfeiriwyd ato. Gan na feddaf ddigon o wybodaeth ymarferol a'm galluoga i draethu barn ar y mater, ymataliaf. Eithr y mae'r ffaith i ddyn o safle Syr Oliver gael ei lwyr argyhoeddi bod y gyfathrach â'i fab yn gorffwys ar seiliau rhy gadarn iddo fod mewn unmath ar amheuaeth o barthed i'w dilysrwydd yn ennyn ynof duedd gref yn ffafr credu a honnir ganddo. Gwir yw bod cryn dwyllo ynglyn ag ysbrydegaeth; eithr, yn sicr, nid dyn oedd ef y gellid yn hawdd ei dwyllo. Ymhellach, nid mater i'w wneuthur yn destun gwawd mohono, fel y digwydd yn aml. Gwawdir popeth newydd. Yr un pryd, da fyddai gennyf pe meddwn yr unfath ar sicrwydd o barthed i'r mater ag a lwyr feddiannai feddwl ac enaid Syr Oliver. Ni fedraf fynd ymhellach na *hyder*; a'm hyder yw na syrth dim y sydd werth ei gadw i ddifodiant. Pe ffaith a fyddai difodiant, onid "gwagedd o wagedd" a fyddai bywyd dyn bob cam o'r crud i'r bedd. Y mae dyn ar ei daith i rywle; ie, i *rywle*; i ba le ni wyddom.

Sylfaenaf fy hyder ar a wn am Iesu, heb sôn am wŷr a gwragedd da eraill. O ddarllen hynny o hanes Iesu y sydd gennyf, o sylwi ohonof ar bersonoliaeth ryfeddol a ddaw i'r amlwg trwy gyfrwng hanes, gofynnaf—ydyw'n rhesymol credu mai difodiant a fu ei dynged? Na, nid yw credu peth fel hyn yn rhesymol.

Onid gwir yw, felly, bod Iesu, drwy ei fywyd o wasanaeth hunanaberthol ac o burdeb glân, wedi dwyn anllygredigaeth i oleuni? O feddwl ohonom am fywyd yn y golau hwn, onis llwyr weddnewidir: nid telpyn o fater mohono mwyach, eithr enaid anfarwol.

Goleuni.

Gan Mrs. A. Jones Rees, Llanbedr.

Yn hwyr un noson ym mis Medi diwethaf yr oeddem yn dod allan o sosial i un o'r milwyr a oedd gartref ar "leave" o'r Dwyrain Canol. Wrth ddod trwy ddrws y festri, cawsom syndod dymunol iawn,—yr ystrydoedd wedi eu goleuo, a'r lampau'n tywynnu'n llon ar lwybrau a fu'n dywyll am chwe mlynedd. Edrychem oddiamgylch yn syn gan ryw hanner amau cywirdeb ein llygaid. Cafodd y cyfnewidiad effaith galonogol ar bawb. Meddiannwyd ni ag ysgafnder ysbryd a llawenydd calon na fu'n eiddo inni er dechrau'r Rhyfel. Y mae goleuni ynddo'i hun yn gysurlawn, ond pan ddaw i ymlid tywyllwch blynyddoedd o derfysg, y mae ei effaith yn aruthrol. O ystyried ei effaith arnom ni a oedd a'n traed yn rhydd, pwy all ddirnad teimlad y carcharor rhyfel yn ei wersyll aflan ers pedair neu bum mlynedd, pan dorrodd gwawr rhyddid arno yn ei gell aflan !

Darllenwn lyfr ar deithio—A Book of Travels—y nos o'r blaen wrth olau'r trydan. Yr oedd llong fechan yn croesi'r Iwerydd o Brydain i'r America. Hwyliai'r llong yn esmwyth, ac yr oedd ei chriw yn llawen a difyr. Yn sydyn, dyna rywun yn gweiddi fod rhewfryn (iceberg) yn y golwg. Newidiodd teimladau'r morwyr ; daeth pryder i deyrnasu yn y llong yn lle llawenydd, ac yr oedd pob calon yn gyffrous. Wrth ddarllain, ni allwn innau lai na theimlo rhyw gyffro yn fy ngwaed ; darllenwn yn gyflym yn llawn awydd am wybod beth fyddai tynged y llong. A minnau yng nghanol y cyffro, dyna'r golau'n mynd allan gan fy ngadael yn y tywyllwch eithaf ac mewn penbleth ofnadwy; mynnai fy meddwl lynu wrth y llong a'i llwyth. Fflachiai'r cwestiynnau trwy fy meddwl—Ble mae'r llong erbyn hyn, a ble mae'r rhewfryn ? Braidd na chlywn y rhewfryn yn taro yn erbyn talcen y tŷ. Gwna tywyllwch bopeth yn fwy arswydus.

Ar ôl galw'r trydan yn bopeth ond bendith a thawelu fy meddl dipyn, meddyliwn am y morwyr ar eu llong fechan. Beth fyddai eu teimlad hwy pe pallai goleuni'r llong yn y fath amgylchiad ? Buasai eu sefyllfa yn druenus mewn tywyllwch dudew, a'r fath berygl yn llercian yn ymyl.

Oni fydd goleuni yn gaffaeliad, y mae rhywbeth allan o le, naill ai gwallgofrwydd rhyfel neu rhyw wallgofrwydd arall yn blino'r ymdeimlad. Y mae goleuni yn anhepgor i dyfiant, yn anianol, yn feddyliol ac yn ysbrydol. Ni welid blodeuyn yn yr ardd, na glaswelltyn yn y maes pe bai'n fythol nos. Ofer i ni geisio tyfu blodau mewn seler neu ryw ystafell heb ddigon o oleuni yn treiddio i mewn, ac y mae'n rhaid iddo fod yn oleuni naturiol.

Ni wna golau celfyddydol y tro. Truenus ydyw cyflwr y sawl na chwennych dderbyn pob pelydryn posibl o oleuni i'w ymwybyddiaeth. Gwell gan rai fyw mewn tywyllwch meddyliol trwy eu hoes nac agor ffenestri'r meddwl i dderbyn goleuni gwybodaeth a doethineb i eangu'r deall a chyfoethogi'r ymwybyddiaeth. Felly hefyd gyda golwg ar oleuni ysbrydol. Gresynus ydyw cyflwr y sawl na chais oleuni Duw ar ei ymwneud â gorchwylion y dydd a'i ddyletswydd tuag at ei gyd-ddyn. Tebyg ydyw'r cyfryw i'r blodeuyn a guddir mewn tywyllwch ; nid oes iddo dwf, ac ni flodeua byth yng ngardd Paradwys Duw.

Ni fu erioed fwy o angen goleuni ac arweiniad. Un rheswm am hynny ydyw'r gwrthdarawiad rhwng y meddwl modern a'r hen. Dywed yr hen fod yr ifanc yn ysgafn a difeddwl, a geilw yr ifanc yr hen yn ffosils ac yn boenus o hen-ffasiwn. Anodd i ni ddeall gogwydd meddwl yr oes fodern, ac yn ôl pob tebyg y mae'n llawn mor anodd i'r ieuainc ddeall gogwydd ein meddyliau ninnau. Oni theimlwn bod angen rhyw "happy medium" rhyngom. Pwy a'i awgryma ?

Y dydd o'r blaen gwelais gyfeiriad gan rywun mewn papur wythnosol at arferion a thueddiadau y bobl ieuainc. Dywedai, "Ai nid buddiol a fuasai cyflwyno darluniau a ffilmiau at wasanaeth pob eglwys ?" Credaf y buasai darluniau o'r Beibl yn eithaf diddorol, a byddai rhai ohonynt megis Dafydd a Goliath, Moses yn arwain yr Israeliaid allan o'r Aifft, Aaron yn troi'r wialen yn neidr a llu o enghreifftiau eraill yn llawn mor gyffrous a dim a wêl y llanc ifanc mwyaf anturiaethus yn y sinema heddiw, a byddent yn sicr o greu diddordeb newydd yng nghynnwys y Beibl.

Heb ragfarn na chulni, beth a ddywedwn am y ddawns, a oes drwg ynddi, a'i dwyn ymlaen yn weddaid a threfnus.

Ffurf neilltuol o ddifyrrwch, megis chwarae pel ydyw. Oni fuasai'n well gan rieni weld eu plant yn dawnsio'n weddaidd ac yn gyhoeddus mewn festri, na'u bod yn mynd yn ddirgelaidd i glwb neu dafarn ? Cadwer y ddiod feddwol allan o'r ddawns, yna ni welaf niwed ynddi i'r ieuainc. Hwyrach y bydd rhai yn siglo eu pennau ac yn ochain wrth feddwl am ddawns mewn festri. Ofn ei halogi, bid sicr. Nid yw'r festri nag un adeilad arall ond pentwr o fater, yn goed a cherrig a morter a phethau o'r fath nas gellir eu halogi. Pe bawn i yn ceisio halogi carreg, nid y garreg a halogwn ond mi fy hun. Y mae'n rhaid bod yn feddiannol ar feddwl a deall ac ewyllys cyn y bydd halogrwydd yn bosibl. Ceisiwn gadw'r ieuainc yn lân ac yn bur ar bob cyfrif. Gwyddom yn dda erbyn hyn mai ofer ydyw ceisio eu cadw ar lwybrau'r tadau.

Rheswm arall am angen goleuni ac arweiniad ydyw'r anghydfod a'r ymryson parhaus sydd rhwng gwlad a gwlad. Ddoe ymfalchiem am fod y rhyfel wedi dod i derfyn. Heddiw daw hanes diflas o'r Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell, cenhedloedd yn dal i ymrafaelio a

chynhenna ynghylch pethau'r byd hwn. Dyma'r pethau a ddaw a ni i wrthdrawiad o hyd. Y mae trachwant wedi trechu brawdgarwch, a hunan-les wedi lladd haelfrydedd ymhob rhan o'r byd.

Ni phroffesaf fi fy mod yn deall ond y nesaf peth i ddim am ddyrys broblemau gwladwriaethol a rhyngwladwriaethol, ond credaf nad yw'r dyn mwyaf pendew heb ofyn iddo'i hun, beth sy'n rong, wrth glywed am gecraeth a chynnen, ac yntau'n meddwl fod heddwch a thawelwch wedi gwawrio.

Tybed a ellid rhannu'r ddaear yn gydradd rhwng holl genhedloedd y byd, fel na byddo gwlad dlawd yn unman. Hwyrach y buasai hynny yn gaffaeliad. Ar y llaw arall, hwyrach bod ambell wlad fel ambell ddyn na wna un ymdrech i gadw ei gwch ar wyneb y dwr. Yna pan fo'r tonnau yn ei drechu, geilw ar ei frawd i'w helpu.

Problem fwya'r cread ydyw dyn. "Rhyfedd ac ofnadwy y'n gwnaed." Y trwbwl yw ein bod wedi anghofio'r Graig o'r hon y'n naddwyd, ac yn arfaethu yn ôl ein mympwy ein hunain. O ganlyniad, dyma ni yn palfalu yn y tywyllwch ac yn baglu o ryfel i ryfel.

Pe baem ni, deulu'r llawr, yn ceisio am Oleuni'r Nef i'n tywys ar ddyrys lwybrau'r anial, gwynfyd fyddai rhodio yn ei lewych hyd nes croesi ohonom y ffin i'r wlad lle nad oes ond goleuni bythol. "Ni bydd nos yno."

Cwn ar Gyfeiliorn.

Gan Dewi Hiraddug, Ilford.

Cyfaddefir gan bawb sy'n gyfarwydd â'r hyn o hanes sydd ar gael am Iesu o Nasareth fod dameg y Mab Afradlon yn un o'r pethau tlysaf a mwyaf awgrymol o holl ymadroddion trysoredig y Meistr sydd ar glawr yn yr Efengylau Cyfolwg. Er hyn i gyd, nid gormodiaith eithr ffaith anwadadwy ydyw dywedyd nad oes ond ychydig iawn o'r miloedd sy'n dewis bod yn barhaus y tuallan i bob capel ac eglwys yng Nghymru, a llai fyth yn Lloegr, yn gwybod dim byd amdani. Nid ydynt erioed wedi ei darllen na'i chlywed. Gresyn o beth. Fodd bynnag, os digwydd i ambell un yma ac acw ei darllen neu ei chlywed, fe ddichon y gall ddirnad arwyddocad y ddameg gyfoethog hon o'r hyn lleiaf mor eglur ag y mae ci dysgedig yn deall ystyr ei berthynas ef ei hun â'i feistr a'i gyfaill y dyn. Oblegid y dyn ydyw duw y ci, onid e? Fe edrych i fyny ato, a rhyfeddu—hynny yw, addoli.

Ar y llaw arall, ymhyfryda'r dyn yng nghymdeithas y ci fel cydymaith diddorol a difyr, a gwerthfawroga ddefosiwn disgyblaidd y pedwartroed a'i barodrwydd i ufuddhau i'w orchmynion a pharchu ei awdurdod. Edwyn pob dyn call ei gi ei hun, ac fe'i hoffa uwchlaw pob ci arall. A gŵyr y ci yntau hyn wrth reddf. Y mae'r naill yn deall iaith y llall ; ac nid oes ddirgelwch nas cyfranogir gan y ddau fel ei gilydd. Dyna pam y dywedodd Sais enwog, neb llai na'r Doethor Samuel Johnson, unwaith : " Gwell fuasai gennyf weled portread o ryw gi a adnabyddaf na'r holl ddarluniau damhegol y medr pobl eu dangos imi yn y byd i gyd." A thra bo'r pedwartroed dysgedig yn parhau'n deyrngar i'w feistr y deudroed—yn ffyddlon fel cyfaill iddo, yn wyliadwrus o'i ddiddorebau ac esgud i ymateb i'w alwad—nid oes angen arno falio dim o gwbl am yfory ; oblegid gŵyr pob ci profiadol felly y bydd digonedd o ymborth maethus ar ei gyfer, ynghyd â gwely clyd a chynnes i orwedd arno. Dieithr i bob ci doeth o'r fath ydyw'r pryder llethol sy'n poeni cynifer ohonom ni blant dynion, yn enwedig yn y dyddiau hyn. Araul ei fywyd, a digwmwl ei ragolwg.

. . . . . .

Ond beth pe bai'r ci yn ei gymryd i'w ben i fynd ar gyfeiliorn ac allan o ofal ei feistr caredig, neu pe'i hudid gan ryw gŵn ffôl a gwrthryfelgar eraill i anturio mynd i hela drosto'i hun mewn maes neu goedwig allan o'i hen gynefin a chwbl ddieithr iddo ? Druan ohono, buan y sylweddola nad mor heulaidd ei ragolygon ; ac yn y man fe'u tywyllir fwy-fwy gan gymylau dudew. Nid ydyw ceisio ymdaro yn ei ddull ei hun ymhell oddi cartref yn beth mor hawdd ag y tybiodd unrhyw gi anhywaith erioed. Gwaeth fyth, os digwydd i'r pedwartroed ar gyfeiliorn, yn ystod ei grwydro ar fynydd neu forfa, gwrdd â rhyw ddeudroed sy'n ei atgoffa o'i feistr a adawodd, y mae'r creadur euog ar unwaith yn ei olygu fel gelyn iddo ; fe'i dychrynir, ysgyrnyga, chwyrna, ac i ffwrdd a fo cyn gynted ag y gallo â'i gynffon rhwng ei goesau—i ble, nis gŵyr . . .

Na ; nid fel yna bob amser chwaith. Ambell dro—yn dra mynych, o ran hynny—yn flinedig, newynog, ac ymron wedi darfod amdano, daw ci felly o'r diwedd " ato ei hun," megis y mab afradlon yn y ddameg, ac yn union yr un fath â llawer o afradloniaid dirweddol yn y dynolfyd. Yna heb ymdroi dacw fo'n ymgropian yn ôl i'w hen gartref, yswatio wrth draed ei feistr ; a chan ysgwyd ei gynffon yn cyfaddef ei edifeirwch cyn blaened ag y llefarodd ci edifeiriol erioed—yn ei iaith ei hun, wrth gwrs. O ! mor edifar ganddo ddarfod bod mor ffôl â mynd ar gyfeiliorn ! Yn drist, fe erfyn am faddeuant . . . A maddeuant a gaiff, yn rhad a dirwgnach. Yn wir, y mae'r meistr wrth ei fodd. Llawenycha oherwydd dychwelyd o'r crwydryn. A geilw ar bawb yn yr hen gartref i fwyta,

yfed, a bod yn llawen, oblegid yr un " a gollesid a gaed," a'r un a dybiesid oedd farw sydd eto'n fyw !

. . . . .

Y gwir yw, nad oes dim a ddaw a chŵn ar gyfeiliorn " atynt eu hunain " cyn gynted â newyn ac eisiau—yr hyn sydd yr un mor wir am genhedloedd rhyfelgar ag ydyw am feibion afradlon a chŵn a gollodd eu pennau fel ag i fynd ar gyfeiliorn mewn gwlad bell.

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A.

(*Parhad o dudalen 57*).

Yn ystod haf 1903, am y tro cyntaf, dechreuwyd cynnal gwasanaethau pan oedd gwyliau yn y Coleg, a phan oedd y myfyrwyr felly fel rheol wedi gadael y dref. Y Parch. D. Delta Evans, golygydd y *Christian Life* ar y pryd, oedd i gymryd y gwasanaeth cyntaf, ond oherwydd amgylchiadau anorfod methodd a dod a chymrwyd ei le gan y Parch. G. Eyre Evans. Mr. Evans hefyd a gymrodd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn ystod y gwyliau ond cafodd gynorthwy parod amryw o'r myfyrwyr a oedd y pryd hynny â'u hwynebau ar y weinidogaeth. Ymhlith y rhain yr oedd J. Park Davies, Llandysul ; John W. Davies, Llanbedr ; J. Islan Jones, Cribyn, a Watcyn S. Jones, Llanbedr. Bu'r gwasanaethau hyn yn llwyddiant mawr—yn gymaint felly fel bron a'm synnu pan welaf yn y cof-lyfr faint oedd yn bresennol ymhob gwasanaeth. Y nifer gyffredin oedd rywle o ugain i ddeg-ar-hugain, ond un tro yr oedd cymaint a thri deg a phedwar yn y cwrdd. Ymwelwyr, wrth gwrs, oedd y rhan fwyaf o lawer o'r rhai a fynychai'r addoliad trwy'r gwyliau.

Digwyddodd un peth yn ystod yr haf hwnnw sydd yn deilwng, mi gredaf, o gael ei groniclo yma. Fel llawer tref arall, cyhoeddai Cyngor Tref Aberystwyth y pryd hwnnw Hyfforddwr Swyddogol i'r dref a'r amgylchoedd, ac ymhlith llawer o bethau eraill rhoddid enwau capeli ac eglwysi'r dref ynghyd â'u gweinidogion. Ond trwy ryw amryfusedd neu'i gilydd, neu efallai o fwriad, gadawyd allan enw'r Achos Bach Undodaidd. Cynhyrfodd hyn dipyn o bwyllgor y mudiad ac felly anfonwyd llythyr at y maer ar y pryd i ofyn y rheswm pam ac yn awgrymu y cymrid mesurau pellach oni fyddai'r ateb yn foddhaol. Atebodd y maer yn ddigon gostyngedig

yr edrychid i mewn i'r mater gan un o bwyllgorau'r Cyngor a thebyg i bopeth droi allan yn iawn yn y diwedd am nad oes sôn pellach amdano yn y cof-lyfr.

Nid oes sôn yn y cofnodion pryd na sut y dewiswyd y pregethwyr am dymor Hydref 1903, ond dyma'r rhestr fel yr ymddengys ar gerdyn yn y cof-lyfr :

Sunday, Oct.	4th,	D. J. Davies, B.A., Marburg.
„ „	11th,	Rd. Mansell, Shrewsbury.
„ „	18th,	E. G. Miles, U.C.W. Supply (h.y., G.E.E.).
„ Nov.	1st	John W. Davies, Lampeter.
„ „	8th	Rev. Lewis Williams, Ciliau Aeron.
„ „	15th	Rev. T. Arthur Thomas, Llandyssul.
„ „	22nd,	T. Stephens, U.C.W.
„ „	29th	Rev. T. J. Jenkins, Gellionen.
„ Dec.	6th	Rev. Wm. James, B.A., Llandyssul. (Communion Service).
„ „	13th	J. D. Jones, Manchester College, Oxford.
„ „	20th	J. Park Davies, B.A., Manchester Coll., Oxford.
„ „	27th	J. Islan Jones, B.A., Manchester Coll., Oxford.

10.15—11 a.m. : *Bible Class, for study of St. Mark's Gospel.*

Mae'r rhan fwyaf o'r uchod naill ai yn adnabyddus i'n darllenwyr neu wedi cael ychydig eiriau amdanynt yn barod yn yr ysgrifau hyn, ond erys rhyw bump neu chwech i ddweud gair neu ddau amdanynt. Lleygwr o'r Amwythig a chyfaill mynwesol i'r Parch. G. Eyre Evans oedd Rd. Mansell. Myfyriwr yn paratoi am y weinidogaeth gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Coleg yma oedd E. G. Miles. Am T. Stephens ni wn ddim, ond tebyg mai myfyriwr am y weinidogaeth gyda rhyw enwad heblaw'r Undodiaid oedd yntau hefyd. Prin y mae angen dweud mai brawd hynaf y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, oedd y Parch. T. J. Jenkins. Un o'r bechgyn ffeinaf a adnabyddais erioed oedd, a phregethwr da hefyd. ond yn anffodus bu farw yn llawer rhy gynnar. Nid golygydd presennol Yr Ymofynnydd, fel y bydd rhai hwyrach yn barod i feddwl, yw J. D. Jones, eithr yn hytrach myfyriwr yn perthyn i dô hŷn na'n Golygydd. Mab Caerau, Llanwenog, oedd a brawd David Jones a oedd y pryd hwn yn drysorydd y mudiad. Fel ei frawd, aeth yntau drosodd i Eglwys Loegr a bu farw yn offeiriad yn yr Eglwys honno. Nid oes angen dweud, mi gredaf, mai Prifathro presennol Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, yw J. Islan Jones.

Emynwyr Ceredigion.

O FYSG YR UNDODIAID.

Gan y Parchedig J. Seymour Rees.

Flynyddoedd yn ôl cododd chwen yn fy mhen i gasglu rhestr o Emynwyr a anwyd yng Ngheredigion. Tyfodd y gwaith dan fy nwylo i gynnwys bywgraffiad byr o bob un, a detholiad hefyd yn ychwanegol. Wrth gwrs, gwyddwn mai sir Gaerfyrddin sydd a'r dorch am fagu Emynwyr, ac ni faidd neb roi her dros ranbarth arall o'n gwlad.

Erbyn hyn, tyfodd Emynyddiaeth Cymru, ben-bwy-gilydd yn ormod o faes i gasglu'r ffrwyth yn weddol gymen. O'r herwydd, tybiais mai cynllun addas fuasai cael pob sir ar ei phen ei hun. Ar awr wan mentrais innau ddechrau chwilio y tu mewn i gyffiniau'r un y cefais fy ngeni a'm magu ynddi.

Weithian, y mae gennyf dros gant ar dudalennau fy nghyfrol. Ni honnaf fod yma gyfansoddwyr gwych bob un, eithr cefais bleser wrth gasglu'n ddyfal am wenith, a chael us hefyd yn gymysg. Cynnyrch yw hwn a gaiff aros yn fy llyfrgell heb gerdded oddiyno i lewych dydd, a "llygad goleuni."

Credais mai diddorol i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd fuasai cael golwg ar gynnwys darnau o'r gyfrol. Felly, tynnaf hwynt allan i adrodd eu stori.

David Davis, Castell-hywel (1745—1827).

Gan i ysgrifau gwych ymddangos arno yn Yr Ymofynnydd am Hydref, 1927, prin y mae galw am ddim yn awr ond braslun.

Ganed ef ar Chwefror 14, 1745, yn y Goetre-isaf, Llangybi. Ei rieni oedd Timothy Jacob ac Elinor. Yn ddeunaw oed derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Cilgwyn. Cafodd addysg eithriadol dda gan David Jones, Dolwlff, Llanybydder ; T. Lloyd, Llangeler ; Joshua Thomas, Llanllieni ; Dr. Jenkins, Caerfyrddin ac yn y Coleg Presbyteraidd o'r un dref.

Yn 1767 daeth galwad iddo oddiwrth eglwys y Ciliau, Llwyn-rhydowen, a'u chwiorydd yn y cylch. Wedi cadw ysgol yng Nghiliau am dymor symudodd i fyw i Gastell Hywel yn 1783. Enillodd safle uchel iawn fel athro, a phraw o hynny yw'r wahoddiad a gafodd yn 1778 i wasanaethu yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin.

Ar Ionawr 16, 1820 ymddiswyddodd fel gweinidog ar derfyn tymor o ddwy flynedd a hanner cant. Hunodd yn yr angau ar y 3ydd o Orffennaf a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanwenog.

Yn 1824 cyhoeddodd ei gyfrol, "Telyn Dewi," yn cynnwys nifer helaeth o'i emynau. Cafwyd ail-argraffiad yn 1876, a'r trydydd yn 1927.

Dyn o amryw ddoniau oedd David Davis, ysgolhaig, athro, bardd, emynydd, pregethwr a gŵr o gymeriad gwych iawn.

Reuben Davies, "Prydydd y Coed" (1808—33).

Mewn bwthyn tô gwellt, "Tan-yr-Allt," gerllaw pentref Cribyn y ganed ef yn 1808. Brwydrodd ei dad ynghanol amgylchiadau celyd fel gwehydd i estyn yr addysg orau a fedrid i'w fab. Danfonwyd ef i ysgolion yng Nghribyn ac Ystrad.

Yn llanc, bu'n athro ar ei gyfrifoldeb ei hun mewn amryw fannau. Ar fyr, gosododd ei fryd ar ymgysegru i waith y weinidogaeth gyda'r Undodiaid. Enillodd ei ffordd i Goleg Henadurol Caerfyrddin tua'r flwyddyn 1825. Yn dra buan gafaelodd afiechyd ynddo i dorri ar draws ei gynlluniau. O'r herwydd cefnodd ar yr athrofa i gadw ysgol drachefn. Llafuriodd yn ei bentref genedigol, a Chilmaenllwyd yn sir Gaerfyrddin. Eithr dihoeni a wnaeth am flynyddoedd nes ymadael â'r fuchedd hon ar Ionawr 8, 1833, yn bum mlwydd ar hugain oed.

Yn ystod ei oes fer a brau, cyfansoddodd Reuben Davies doreth o farddoniaeth. Hwyrach mai ei emynau yw'r cynnyrch gorau sydd ar ei ôl. Erys tua hanner cant ag un ar ei enw mewn llawysgrifen. Gwelodd amryw ohonynt olau'r dydd yn ddiweddarach.

Un o'r adar cynnar yn canu a fu "Prydydd y Coed" cyn cilio i orffwys o'i wendid mynych, ym mynwent Dihewid.

Thomas J. Griffiths, "Tau Gimel."

Yn ôl a welaf y mae llawer o hanes y gwrthrych hwn yn gorwedd mewn niwl. Mab ydoedd i'r Parch. Griffith Griffiths, Llechryd. Ganed ef yn 1797. Derbyniodd ei addysg gyda'i dad cyn myned i ysgol Castell Hywel, dan David Dafis, a Choleg Caerfyrddin, yn 1818. Yn 1824, ymsefydlodd yn weinidog ar yr eglwysi yng Nghiliau, Galltyplaca a Chribyn. Gyrfa'n llawn o droeon rhyfedd a gafodd. Yn 1841 dywedir iddo symud i'r Amerig. O'r flwyddyn 1847 hyd 1853 gofalodd am yr eglwys yng Nghaeronnen. Yna symudodd i wasanaethu yng Nghribin, gan aros yno ymron hyd ddiwedd ei oes, Ionawr 19, 1871. Claddwyd ef ym mynwent Galltyplaca.

Yn 1830, cyhoeddodd Tau Gimel lyfr emynau yn dwyn y teitl : "Mawl i Dduw : Neu Emynau Newyddion a Detholedig : Priodol i'w canu gan Gynulleidfaoedd Diragfarn o bob Enwad a Barn : Gan y Parch. T. Griffiths, "Tau Gimel," Ciliau Aeron, Ceredigion. 1830. Llanymddyfri : J. Jones, Heol y Farchnad." Y mae yn y gyfrol hon 640 o Emynau, a 29 yn waith y casglydd.

Yn 1839, cychwynodd gyhoeddiad bychan, "Yr Hanes : Llawer mewn Ychydig."

Yn rhyfedd iawn ni chefais yr un emyn o waith Tau Gimel yn llyfrau ei enwad, nac yn unman arall.

Er mai anrhefnus a fu ei fyd ar lawer tro, eto balch oeddwn wrth weled teyrnged Mr. T. Oswald Williams yn y geiriau hyn : "y pregethwr derbyniol, y cofiannydd medrus, y golygydd cyrhaeddbell, yr emynydd syml ond a rhyw ysbryd aflonydd afradlon yn ei ysu."

James Herbert.

Methwyd yn lân a chael llawer o ffeithiau ynglyn â hanes y dyn hwn. Ganed ef yn fab i Jacob Herbert a'i wraig. Trigent hwy mewn tyddyn bychan, Pant Glas yn y rhan uchaf o ddyffryn Cletwr Fach, tua milltir o Dalgarreg, ac ym mhlwyf Llanarth. Symudodd yn weddol ieuanc i fyw mewn bwthyn o'r enw Cwmcych, ger Castellnewydd Emlyn, ac ym mhlwyf Cilrhedyn. Saer maen oedd wrth ei alwedigaeth, ond cyffredin a fu ei amgylchiadau tymhorol. Cydnabyddid ef yn fardd da, er mai prin yw nifer y cyfansoddiadau a adawodd ar ei ôl. Adwaenid ef yn ŵr hyddysg mewn gwybodaeth Feiblaidd, a dywedir ei fod yn dipyn o amheuwr. Eto mynychai'r moddion crefyddol yng nghapel Panteg.

Ceir rhai o'i emynau yn ddiogel ym *Mherlau Moliant* i ddangos ceinder ei arddull a thynerwch ei ysbryd. Bu James Herbert farw tua 1890.

Thomas Humphreys, Llandysul (1814—1891).

Y mae dwy farn ynglyn â man ei enedigaeth. Dywed Hathren, gŵr craff, mai Mydroilyn yw'r lle. Eithr mewn ysgrif yn Yr Ymofynnydd am 1932, enwir Penlôn Esgair, bwthyn tlodaidd yn nyffryn Cletwr Fach, gan "Glan Glowon." Gŵr anhysbys i mi yw hwn, dan ei ffugenw, ond deniadol yw ei ysgrifau. Ganed ef ar Chwefror 8, 1814 yn fab i Evan a Margaret Saunders. Yr oedd ei fam yn gyfnither i'r Parch. David Saunders, Merthyr Tydfil. Mabwysiadodd grefft ei dad fel gwehydd. Dywedir ei fod yn gymeriad hoffus iawn, ac na cheid, o'r herwydd, yr un gelyn iddo ar y ddaear. Undodwr ydoedd o ran ei gredo, a bu'n ddiacon selog am flynyddoedd yn eglwys Llwynrhydowen.

Bardd gwlad ydoedd, ac yn ddigon parod ei ergyd heb na cholyn na gwenwyn yn yr un ohonynt. Er na chyhoeddwyd cyfrol o'i weithiau barddonol, eto cafwyd rhai o'i emynau ym *Mherlau Moliant.*

Bu Thomas Humphreys farw ar Fehefin 16, 1891 yn 78 mlwydd oed, a chladdwyd ei weddillion ef ym mynwent Llwynrhydowen.

William Jenkins, "Gwilym Gwenog" (1825—1878).

Mewn ffermdy o'r enw Glyn Meherin, ger Cwrtnewydd y cafodd ef ei gartref cyntaf yn 1825. Ei rieni oedd David ac Elinor Jenkins, teulu cefnog a roddodd i'r plentyn fanteision addysg. Yn gynnar danfonwyd ef i ysgol a gedwid gan y Parch. John Thomas, yn Llandysul. Wedyn aeth i un arall dan ofal y Parch. Thomas Thomas ym Mhontsiân. Gwelodd y ddau athro hyn fod cymhwysterau arbennig yn y dyn ieuanc i wynebu ar y weinidogaeth. Eithr daeth anhwylder i'w rwystro, a dychwelodd i amaethu gyda'i frawd. Ond ni fu'r gorchwyl hwn wrth fodd ei galon. Mewn canlyniad, agorodd fasnachty yng Nghwrtnewydd. Cyn hir y mae'n troi allan hefyd yn arwerthwr gyda chryn lwyddiant.

Yr oedd yn fardd go hwylus yn y mesurau caeth a rhydd. Ymddengys ei gyfansoddiadau yn fynych mewn cylchgronau. Yr oedd yn ddarllenwr helaeth, ei farn yn chwaethus, a'i gyfansoddiadau yn dwyn ôl coethter. Gwelir llawer o'i emynau ym *Mherlau Moliant* (1896). Perthyn iddynt felyster ac eneiniad.

Bu Gwilym Gwenog farw yn Ffos Ffald, Llanwenog ar Orffennaf 14, 1878 yn 53 mlwydd oed. Ym mynwent Capel y Groes y mae ei hir gartref, a saif colofn hardd i nodi'r fan.

Evan Ceredig Jones, M.A. (1850—1915).

Weithian, dyma ni yng nghwmni un o'r cyfeillion pennaf a gefais erioed. Ystyriaf mai braint anrhydeddus i mi fu ymgyfeillachu ag ef dros dymor byr, a mynwesu'r atgofion mwyaf parchus amdano hyd y dydd hwn.

Mab ydoedd i Evan a Mary Jones o'r Tannerdy, Ciliau Aeron. Wedi iddo dreulio ei dymor yn ysgol yr Eglwys, Llanddewi Aberarth, dan Mr. D. Beynon Rees, ac yn ysgol Ramadegol Rhydowen yng ngofal y Parch. Thomas Thomas, hwyliodd ei gamre tua Choleg y Presbyteriaid yng Nghaerfyrddin. Derbyniwyd ef yno yn 1872. Ei fwriad oedd myned i'r weinidogaeth ymysg yr Undodiaid. Gweithiodd mor egniol yn ystod ei bedair blynedd nes ennill Ysgoloriaeth y Dr. Williams i Brifysgol Glasgow, a sicrhau ei radd o M.A., yn 1880.

Ar derfyn ei dymor gwahoddwyd ef i faes pwysig ym Maidstone. Gwasanaethodd yno o 1880 hyd 1884. Daeth i gryn sylw yn y dref ar gyfrif disgleirdeb ei ddoniau. Yn 1885 ymadawodd i eglwys gryfach ym Mradford lle y bu llwyddiant amlwg ar ei lafur hyd 1909 pan orfodwyd ef gan afiechyd i ymddeol ym mis Mawrth.

Treuliodd weddill ei oes, tan Fai 18, 1915, mewn plasty a gododd ef ar seiliau'r bwthyn diaddurn y ganed ef ynddo, Awst 14, 1850. Yn wyneb cryn lesgedd, mwynhaodd ei ddyddiau mewn diddordeb yn ei ardd, y blodau, ei lyfrau, ac ymddiddori yn nulliau gwledig, dedwydd ei gymdogion.

Dyn o chwaethau arbennig o uchel oedd Mr. Ceredig Jones. Ymhyfrydai mewn cerddoriaeth, llysieuaeth, hynafiaethau, rhyddiaith a barddoniaeth. Braint amhrisiadwy oedd cael treulio oriau yn ei gwmni gan mor gyfoethog o ddiwylliant ydoedd. Boneddwr o ysbryd mwynaidd oedd, fel y mynegir yn y dystiolaeth hon gan ei gyfaill, y diweddar Henadur J. M. Howell, Y.H., Aberaeron: "His personal character was rare and delightful for its old-world courtesy, for its straightness without curtness; for its universal generousness without violating the principle of selection. He was kind to all, and at the same time discriminating. He loved the artless and the man of sense or talent. He did not snub the knave and the flatterer. But he had his gallery of the men whom he honoured, and those who were placed there must have some merit. He fought his way from a humble origin to a high social and intellectual altitude."

Y mae a fynnwyf i yn yr ysgrif hon â gwasanaeth Mr. Ceredig Jones i Emynyddiaeth Cymru, y wlad a garodd ag holl angerdd ei galon.

Pan glywodd am fwriad ei enwad i gyhoeddi llyfr emynau newydd, a chais am ei gymorth ymdaflodd ar unwaith i gyfansoddi emynau. Mewn afiechyd y lluniodd hwynt, a hawdd yw teimlo naws ei brofiadau yn cyniwair drwyddynt. Ymddangosodd nifer helaeth yn y casgliad, ac amlwg ynddynt yw nodau addfwyn a thyner y gwir Gristion. Cyhoedda'r Parch. R. J. Jones, M.A., i Mr. Ceredig Jones gyfansoddi ar yr achlysur hwn naw cant a thrigain o emynau. Erbyn hyn diogelwyd y casgliad cyflawn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Dywedir wrthyf o ddau fan arall mai'r nifer yn gywir yw tua dwy fil o emynau.

Cyhoeddodd Mr. Ceredig Jones dri llyfr. Yn 1881, daeth traethawd ar "Ryddymofyniad." Yn 1890, cyfrol o ddefnyddiau ar gyfer anthemau. Yn 1905, Llyfr Gwasanaeth Gweddi. Ni welais yr un ohonynt, er cymaint fy awydd am hynny. Ysgrifennodd yn helaeth i'r Ymofynnydd, ac i'r *Cymru* (O. M. Edwards). Amlwg iawn oedd delw'r ysgolhaig ar ei holl gyfansoddiadau.

Gorwedd ei weddillion marwol mewn mynwent a berthyn i eglwys yr Undodiaid yng Nghiliau Aeron. Ar Awst 23, 1928, dadorchuddiwyd maen coffa iddo i ddynodi'r fan y gorwedd ei lwch mewn daear mor annwyl ganddo.

Jenkin Jones, Llwynrhydowen (1700—1742).

Cafodd ei eni yn Nhrafle, plwyf Llanwenog, yn 1700. Wedyn symudodd ei rieni i Fryngranog yn yr un gymdogaeth. Aelod ydoedd o eglwys Pantycreuddyn, dan ofal y Parch. James Lewis, Pencader. Codwyd ef i bregethu, ac aeth i'r Coleg Diwinyddol yng Nghaerfyrddin yn 1721. Yn hen Lyfr Eglwys y Cilgwyn deuir ar

draws y cofnod hwn : "Jenkin Jones, o Lwynrhydowen ; ordeiniwyd Ebrill 1726." Ar ôl hynny, safodd fel apostol Arminiaeth, a dechreuodd bregethu ei syniadau newydd yn y Wernhir, neu Benybanc, wrth ymyl plas Galltrodyn. Bu cryn erlid arno, a chasglodd gynulleidfa o'i bleidwyr yng nghapel cyntaf Llwynrhydowen, ar ei dir ef ei hun, yn 1733. Dyma ddechreuad yr achos Arminaidd yng Nghymru.

Wedi cyfnod caled o lafur daeth ei daith i ben, ag yntau ond dwy flwydd a deugain oed. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys Llandysul ar yr 20fed o Fehefin, 1742.

Cyhoeddodd Jenkin Jones lawer o lyfrau i gyd, eithr yr un a ymddangosodd ar ôl ei farwolaeth sydd yn haeddu ein sylw yn yr ysgrif hon. Ei nai a'i fab-yng-nghyfraith, y Parch. David Lloyd, Brynllefrith, sydd yn gyfrifol am gyhoeddi hwn : "Hymnau Cymmwys i Addoliad Duw, o Waith y diweddar Barchedig Mr. Jenkin Jones : At y rhai y chwanegwyd Caniadau o Waith yr un Awdwr, ynghyd a'i Farwnad : Gan Evan Thomas. Cyhoeddwyd gan y Parch. David Lloyd, ei Olynydd. Caerfyrddin : J. Ross yn Heol Awst, Dros Stephen Jones. MDCCLXVIII.

Dyma ffaith sydd yn ddigon diddorol i osod pwyslais arni. Rhoddir enwau 29 o Danysgrifwyr i'r gyfrol hon, ac y mae y nifer yna yn cymeryd pymtheg cant o gopiau rhynddynt. Yr oedd yn werth cyhoeddi llyfrau Cymraeg yn y dyddiau hynny mae'n debyg.

John Jones, Aberdâr (1802—1863).

Ganed ef ym Mhantlluest, plwyf Llanarth, Gorffennaf 20, 1802. Cafodd ei addysg dan David Davis, Castell Hywel, cyn myned i Athrofa Ddiwinyddol Caerfyrddin yn 1823. Ar derfyn ei gwrs yn 1827 bu'n cadw ysgol mewn gwahanol fannau yng Ngheredigion. O 1833 hyd 1863 gwasanaethodd fel gweinidog ar yr eglwys Undodaidd yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr. Ysgrifennodd yn helaeth. Eithr y gwaith pwysig i mi yn awr yw hwn : "Casgliad o Salmau a Hymnau Cymmwys i'w Canu yn Addoliad yr Unig Wir Dduw : Cyhoeddwyd gan y Parch. J. Jones, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr. Merthyr : P. Williams. 1857." Daeth allan yn ddwy gyfrol, a 104 o emynau ymhob un. Ceir yma bigion o weithiau Iolo Morganwg, Tomos Glyn Cothi a rhai emynau newyddion yn gynnyrch Rees Jones, Pwllffein, brawd y casglwr, ynghyd â dau emyn o'i waith ei hun.

Bu John Jones farw ar Ragfyr 19, 1863.

(I'w barhau.)

Priodasau.

MAWRTH 30, yng Nghapel Aberduar, Llanybyther, DAVID LLOYD JACOB, Porthyrhyd, Llanybyther, a HANNAH MARY LORRAINE JONES, Albion House, Llanybyther. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion W. Davies a S. E. Bowen.

EBRILL 20, yng Nghapel y Bryn, THOMAS RANDALL PRICE, Ivy Cottage, Narberth, a ELIZABETH ANN THOMAS, Ceginanne, Tregroes. Gweinyddwyd gan y Parchedig S. E. Bowen.

EBRILL 25, yng Nghapel Abermeurig, EVAN TOM DAVIES, mab y Cyng. a Mrs. Griffith Davies, Rhydyfene, Llandysul a MAIR JONES, merch Mr. a Mrs. David Jones, Gwastod, Talysarn. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion D. Jones, Maesffynnon, Llangybi a E. O. Jenkins.

Marwgofion.

CYDYMDEIMLIR yn fawr iawn â theulu parchus Tŷ'r Capel, Capel y Cwm, yn y profedigaethau a ddigwyddodd iddynt yn ddiweddar yn gyflym ar ôl ei gilydd. Ar Fawrth 8, yn nhŷ ei mab, Bronhaf, Gorsgoch, bu farw EDWIN EVANS yn 76 mlwydd oed, brawd yng nghyfraith Mrs. Evans. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym Mrynteg, y Parchedig S. E. Bowen yn gwasanaethu. Yna dydd Gwener o Dŷ'r Capel claddwyd Mrs. MARGARET THOMAS, chwaer Mr. John Evans, yn 86 mlwydd oed ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llandysul. Yn dilyn y diwrnod ar ôl hynny claddwyd HERBERT LEWIS yn 73 mlwydd oed, tad yng nghyfraith y mab, Mr. Dan Evans, Gorsgoch, ym Mryn Hafod, y Parch. S. E. Bowen yn gwasanaethu.

MAWRTH 20, bu farw Mrs. MARY JENKINS, Tanrallt, Cwrtnewydd. Gwraig dawel a siriol ydoedd, a'i phleser yng nghylch ei theulu. Collodd ei phriod flynyddoedd yn ôl, ac yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf collodd ei mhab a merch yng nghyfraith a oedd yn byw bron ar yr un aelwyd. Gadawodd fab ac wyrion mewn galar ar ei hôl. Claddwyd ym mynwent Capel y Bryn y dydd Sadwrn dilynol. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig S. E. Bowen, a'r Parchedig S. G. Thomas, Capel Seion.

BRON yn ddirybudd bu farw yn gynnar, Sul y Blodau, Ebrill 14, EVAN RICHARDS, Ardmore, Llandysul yn 72 mlwydd oed. Ef oedd arweinydd y gân yng Nghapel-y-Graig drwy y blynyddoedd a bu yn llwyddianus iawn mewn llawer cystadleuaeth gyda chôr Llandysul. Cerddoriaeth oedd ei hoff destun a'i holl ddiddordeb. Claddwyd ei gorff ym mynwent Pantydefaid, Ebrill 17 yng ngwydd torf fawr o'i gyfeillion. Gwasanaethwyd gan ei weinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Thomas, Morris, Jenkins a Jones. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf a'r weddw a'r plant yn eu hiraeth. "Sŵn ei gân sydd ar y mynydd."

EBRILL 15, bu farw Mrs. DAVIES, priod annwyl Mr. Tom Davies, Gelli House, Llanybyther, yntau yn un o blant y Cribyn lle y gwnaeth wasanaeth mawr yn ei amser yn yr Ysgol Sul a chyda'r canu, un o ffyddloniaid brwdfrydig y Gymanfa Ganu. Yr oedd Mrs. Davies yn un barchus iawn yn y pentref, a'i thŷ bwyta y boblogaidd. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent yr Eglwys yng Nghribyn,

y Parchedigion S. E. Bowen ac Esger James, Rhydybont, yn gwasanaethu yn y tŷ, y Ficer a'r Parchedig Aubrey J. Martin yn yr Eglwys ac ar lan y bedd. Cydymdeimlir yn fawr iawn â Mr. Tom Davies yn ei golled, ac yntau yn awr yn unig.

Mai 2, yn 61 mlwydd oed bu farw Mr. DAN DAVIES, L.T.S.C., Tivy Hill, Llanybyther, yn yr Emergency Hospital, Treforus. Yr oedd yn adnabyddus i gylch eang. Plastrwr ydoedd hyd yn ddiweddar, a chyfrifid ef a'i ewythr, y diweddar Mr. John Evans, Llwynbedw, y goreuon yn y grefft. Yr oedd yn adnabyddus i gylch mwy eang yn herwydd ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth. Yn arweinydd campus, yn gyfansoddwr gwych, y mae gennym lawer tôn hyfryd o'i waith ymhlith tonau'r plant. Mawr y golled ar ei ôl yng Nghapel Galltyplaca ac yng nghylch y Gymanfa Ganu a wasanaethodd mor dda fel ysgrifennydd. Bu Choral Society Llanybyther yn flodeuog am rai blynyddoedd, ef oedd yr hyfforddwr a'r arweinydd. Bu i'w gôr ddarlledu ac hefyd ennill gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun. Yr oedd ei gydwybod yn ei waith, ond yr oedd ei enaid yn y gân. Amhosibl fydd canu eleni yn Aberaeron rai o'i donau heb golli deigryn o gofio fod y cerddor yn ei fedd. Gosodwyd ei weddillion ym mynwent Galltyplaca y dydd Llun dilynol. Preifat oedd ei angladd, ond yr oedd yno gynrychiolaeth luosog o bwyllgor y Gymanfa, o'r British Legion, a hwythau wedi gwisgo ei arch yn y modd arferol, gosod ei hysgwyddau odditani, a rhoddi amdorch o Flanders Poppies ar ei fedd, ac o Gôr Llanybyther a ganodd "Ar lan Iorddonen ddofn" yn ymyl ei fedd. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Aubrey J. Martin, Lewis Williams, E. O. Jenkins, S. E. Bowen, a T. Oswald Williams. Talodd ei weinidog deyrnged o barch iddo am ei gyfeillgarwch trwyadl a'i ffyddlondeb cyson. Gadawodd mewn galar ar ei ôl ei briod, dau fab a dwy ferch, ei frawd, y Parchedig J. Dare Davies, Moneyrea, Iwerddon, ei chwaer a'i dad, yntau heb fod ym mhell o'r pedwar ugain a deg oed.

Nodion yr Eglwysi.

CAPEL Y BRYN.—Cydnabuwyd yn ddiweddar gyda diolchiadau gwresocaf garedigrwydd Mrs. Meredith Williams, Woodlands, Galltyplaca mewn rhodd o bum punt at drysorfa'r Ysgol Sul.

GALLTYPLACA.—Rhoddodd Cymdeithas y Chwiorydd a chyfeillion eraill wledd i'r Ysgol Sul dydd Gwener, Ebrill 19. Yr hin yn fraf, cafwyd chwareuon ar y maes, a mawr oedd hyfrydwch y plant. Gwelwyd Brinley Williams, Brynteifi Stores, wrthi'n rhannu melysion i'r plant, rhodd garedig ei dad a'i fam. Yr oedd y cyngerdd hefyd yn anarferol o dda. Gwnaed casgliad sylweddol at gronfa'r Ysgol Sul, ac ychwanegodd Mrs. Meredith Williams at hynny y swm o bum punt.

CAPEL Y CWM.—Rhoddwyr y wledd eleni oedd y ddau deulu caredig, Mr. a Mrs. David Davies, Blaenhirbant Uchaf, a Mr. a Mrs. Tom Davies, Coedlannau Fawr. Digon dweud fod y byrddau cystal â dim a welwyd. Yn dilyn cafwyd cyngerdd, y capel yn llawn a'r rhaglen yn dda. Yna fel arfer gwobrwywyd aelodau'r ysgol Sul gan yr Henadur Meredith Williams a'i briod â llyfrau, a hwythau wedi dewis rhai pwrpasol a diddorol i'r nifer o ddeugain ac un y tro hwn. Nid plant y Cwm y rheini i gyd, ond llwyddodd pen yr Ysgol Sul, Mr. James Thomas, ac yntau yn awr yn cael cynorthwy Mr. Evan Richards a'r brawd ifanc, Daff Richards, Sychbant Farm, fel athrawon, i ddenu'r "evacuees" yn yr ardal i fod yn fynychwyr cyson. Mr. Daff Richards oedd arweinydd y gyngerdd.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.